

## LEWIS, DAVID (1683? - 1760), bardd a dramaydd

**Enw:** David Lewis  
**Dyddiad geni:** 1683?  
**Dyddiad marw:** 1760  
**Rhiant:** Roger Lewis  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd a dramaydd  
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth  
**Awdur:** Ray Looker

a aned yng Nghymru, ond a gafodd gryn enwogrwydd yn Lloegr. Ymddengys mai efe oedd mab Roger Lewis o Landdewi Efelffre, yn Sir Benfro, a ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, 4 Ionawr 1698 (B.A. yn 1702). Efallai iddo fod ar un adeg yn is-athro yn Ysgol Westminster. Cyhoeddodd, yn 1726, *Miscellaneous Poems by Several Hands*; ynddo ceir cyfieithiadau o weithiau Martial, Horas, ac Anacreon, a cherdd bob un gan Dyer a Pope; ond ni ellir adnabod rhan Lewis yn y gyfrol. Yn 1726 cyhoeddodd *Philip of Macedon*, trasiedi ar fesur di-odl, a gyflwynwyd i Alexander Pope; fe'i chwaraewyd hi bedair gwaith, yn gyntaf yn Lincoln's Inn Fields yn 1727. Yn 1730 cyhoeddodd ail gasgliad, sef *Collection of Miscellany Poems*, a gyflwynwyd i'r iarll Shaftesbury. Ceir rhai o'i benillion annerch i Pope yn *Collection of Pieces on the Occasion of the Dunciad* (golygwyd gan Savage), 1732. Bu farw yn Low Leyton, Essex, yn Ebrill 1760, a chladdwyd ef yno. Yn ôl ei gofadail yr oedd ei wraig yn ferch i fasnachwr yn Leyton.

### Awdur

Ray Looker

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [65388938](#)

Wikidata: [Q5236567](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

